

SL(5)368 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi, i gywiro diffyg sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Rheoliad 1(4) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2018 ("**Rheoliadau 2003**") yn diffinio "money market fund" fel un sy'n cynnwys cynllun buddsoddi torfol mewn gwarannau trosglwyddadwy yn ddarostyngedig i Gyfarwyddeb 2009/65/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 13 Gorffennaf 2009. Mae'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cyfyngu'r diffiniad hwnnw ar gynllun buddsoddi torfol a awdurdodir neu a gydnabyddir o dan ddeddfwriaeth ddomestig yn unig (yn benodol, Rhan XVII o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000).

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheoliad 1(4) o Reoliadau 2003. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cynnwys anghysondebau (gweler isod) ac yn dangos, mewn sawl ffordd, fod y diwygiad yn gyfystyr â dileu'r cyfeiriad at "EU regulations" (paragraff 1.2) neu'r "European Directive and Council meeting" (paragraff 4.4).

Fodd bynnag, mae Rheoliad 2 yn hepgor paragraff (a) o'r diffiniad o "money market fund" yn ei gyfanrwydd, sy'n cael yr effaith o hepgor darpariaeth sy'n diffinio cronfa o'r fath fel ymgymeriad ar gyfer buddsoddiad torfol mewn gwarannau trosglwyddadwy. Felly, yn sgil cynnwys y Memorandwm Esboniadol, nid yw'n glir a fwriedir gwneud y newid hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.



Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn, ym mharagraff 2.1, yn nodi'r canlynol am y Rheoliadau hyn *"would have ordinarily been made through the negative annulment procedure however, to ensure that the instrument is operable after exit day it is proposed that the affirmative resolution procedure is followed"*.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae'n ymddangos bod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cynnwys nifer o wallau:

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw "The Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019" (y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Esboniadol fel "The Local Authorities Capital Finance and Accounting (Wales) (Amendment)(EU Exit) Regulations 2019");
2. Mae paragraff 1.2, a datganiad a wnaed gan y Gweinidog ym mharagraff 3.1 yn Rhan 2 o'r Atodiad, yn dangos bod y Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "money market fund" yn Rheoliadau 2003 i "remove reference to EU regulations" (mae'r diwygiad a wneir, mewn gwirionedd, yn hepgor cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2009/65/EC); a
3. Mae paragraff 4.4 yn nodi'r canlynol am y Rheoliadau hyn: "remove references to the European Directive and Council meeting." (Fel uchod, mae'r Rheoliadau hyn yn hepgor cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2009/65/EC).

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau pellach i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Craffu Technegol

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Nodir y pwynt. Gallwn gadarnhau fod bwriad i newid hyn ac y bydd y Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn egluro'r modd y'i drafftwyd.

Craffu ar Rinweddau

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Nodir y pwynt. Hoffai Llywodraeth Cymru wneud y pwynt a ganlyn, fodd bynnag:

5 Chwefror oedd y dyddiad olaf ar gyfer gosod Rheoliadau drwy'r Weithdrefn Negyddol. Nid oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i wneud y newidiadau angenrheidiol erbyn hynny felly cyflwynwyd y Rheoliadau drwy'r Weithdrefn Gadarnhaol.



2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r camgymeriadau a chaiff y Memorandwm Esboniadol ei dynnu'n ôl a'i gywiro cyn ei ailosod.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

